# Gair i gall ar gyfer arbed ynni



Rhowch gynnig ar un o'r cynghorion arbed ynni syml hyn i arbed adnoddau a lleihau biliau ynni yn eich swyddfa.

## Gwresogi a dŵr poeth

**Mae gwresogi'n gyfrifol am 20-40% o gostau ynni mewn swyddfa arferol*, felly dyma le da i gychwyn wrth chwilio am ffyrdd i arbed ynni.**

- Gall cyn lleied ag 1°C o orgynhesu gynyddu costau tanwydd 8% – mae hynny'n golygu defnyddio'r un faint o ynni ag argraffu mwy na 40 miliwn tudalen o bapur A4!* – felly peidiwch â throi'r gwres i fyny heb fod angen.
- Dwedwch wrth eich rheolwr ynni neu dîm cyfleusterau os oes unrhyw ardaloedd yn rhy boeth, yn rhy oer neu'n rhy ddrafftiog. Gallai hynny fod yn arwydd o broblem cynnal a chadw.
- Osgowch ddefnyddio'ch gwresogyddion neu'ch gwyntyllau eich hunain; yn hytrach, siaradwch â'ch rheolwr ynni ynglŷn ag ailraglennu'r system wresogi neu awyru.
- Gwiriwch nad oes tapiau'n cael eu gadael yn rhedeg – a rhowch wybod i'r rheolwr cyfleusterau neu ynni am unrhyw dapiau sy'n diferu neu sestonau sy'n gorlifo .

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Nid yw troi'r thermostat i fyny i'w osodiad uchaf yn cynhesu'r gofod yn gyflymach o gwbl; y cyfan mae'n wneud ydy arwain at orgynhesu.**

## Goleuo

**Gall goleuo fod yn ddrud mewn swyddfeydd mawr, cynllun agored, ond mae rhai camau rhwydd y gallwch eu cymryd i arbed ynni.**

- Diffoddwch y goleuadau mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio neu lle nad oes synwyryddion – ac atgoffwch bobl eraill i wneud hynny hefyd.
- Os ydych chi'n defnyddio bleinds i gadw heulwen lachar allan, cyfeiriwch nhw tuag at y nenfwd neu waliau fel bod dim angen i chi ddefnyddio'r goleuadau mewnol hefyd.
- Rhowch wybod am unrhyw oleuadau diffygiol neu annigonol i'r rheolwr cyfleusterau neu ynni.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Os byddwch chi'n diffodd golau am ychydig eiliadau yn unig, mae'n arbed mwy o ynni nag a ddefnyddir i ailgynnau'r golau eto.**

## Cyfarpar

**Mae cyfarpar TGCh a chyfarpar arall yn gyfrifol am 15% o'r defnydd ynni yn y rhan fwyaf o swyddfeydd** – a dyma'r rhan sy'n tyfu gyflymaf. Ond y newyddion da ydy y gallwch chi fod yn fwy clyfar ynglŷn a'r ffordd rydych chi'n ei ddefnyddio.**

- Peidiwch â gadael cyfarpar ymlaen yn y modd segur: bydd yn dal i ddefnyddio pŵer hyd yn oed os yw'n edrych fel petai wedi'i ddiffodd!
- Llenwch y tegell gyda faint o ddŵr sydd ei angen arnoch, a dim mwy – mae berwi mwy yn gwastraffu dŵr a thrydan.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio unrhyw osodiadau arbed pŵer ar eich cyfrifiadur ac yn ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Mae cyfrifiadur sy'n cael ei adael ymlaen 24/7 yn costio tua £53 y flwyddyn†.
- Os ydy pawb yn rhannu cyfrifoldeb am roi'r peiriant golchi llestri ymlaen, gwnewch yn siŵr bod llwyth llawn ac osgowch gyfnodau ynni brig, pryd bynnag y bo modd.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Mae diffodd eich cyfrifiadur dros nos ac ar benwythnosau yn lleihau ei gost i oddeutu £11 y flwyddyn ac yn arbed cymaint o ynni ag y byddai ei angen i wneud mwy na 30,000 o baneidiau coffi!†**

**Siaradwch â ni!** Rhowch wybod am unrhyw broblemau goleuo neu wresogi i:

TEC ENERGY & EDUCATION CONNECTED

EDF

**Ffynonellau:** * https://www.carbontrust.com/resources/guides/energy-efficiency/employee-awareness-and-office-energy-efficiency/ ** https://www.carbontrust.com/resources/guides/energy-efficiency/employee-awareness-and-office-energy-efficiency/#docdownload-1479 † https://www.carbontrust.com/media/39208/ctv020_further_and_higher_education.pdf

EDF Energy Ltd ar ran EDF Energy (UK) Limited, (Rhif Cofrestredig 2622406). Swyddfa gofrestredig: 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ.